Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol: fframwaith ar gyfer gweithredu




Mae **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** a'r **Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar** wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar ymchwil i ddeall yn well rôl cydweithredu amlsector wrth wella gweithredu cymunedol a lles. Yn y lle cyntaf, roedd hyn yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth o astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer, llenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd, ac yn ail, gweithdy rhyngweithiol lle bu cyfranogwyr o gyd-destunau polisi ac ymarfer amrywiol yn ymgysylltu â chanfyddiadau'r adolygiad ac yn ychwanegu atynt. Canolbwyntiom ar nodi camau gweithredu penodol y gall partneriaid eu cymryd i gefnogi cydweithredu amlsector sy'n gwella gweithredu cymunedol a lles (gweler Ffigur 6 yn yr adroddiad, **Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol**.

Mae'r adnodd hwn yn crynhoi'r camau gweithredu hynny, a'u perthnasedd posibl i wahanol gyd-destunau (e.e., aeddfedrwydd, adnoddau, amserlenni cydweithredu). Rydym yn ei alw'n 'fframwaith ar gyfer gweithredu'. Mae'r camau gweithredu wedi'u grwpio'n dri chategori gwahanol: gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin; trefniadau llywodraethu; a mecanweithiau ariannol. Mae'r rhain yn cyfateb i'r 'camau gweithredu' a ddisgrifir yn y **Prif Ganfyddiadau: Camau gweithredu ar gyfer yr adran ar gydweithredu amlsector effeithiol** yn ein **hadroddiad**, sy'n eu hegluro'n fanylach ac yn cynnig astudiaethau achos. Mae'r ail golofn yn rhoi enghreifftiau o'r camau gweithredu hyn y manylir arnynt yn yr adroddiad, ac mae'r drydedd golofn yn amlinellu'r hyn a amlygwyd yn allweddol i'r camau gweithredu hyn sy'n cefnogi cydweithredu amlsector yn effeithiol. Mae'r colofnau sy'n weddill yn nodi pwy y gallai'r camau gweithredu hyn eu cynnwys, faint o adnoddau y gallai fod eu hangen arnynt (capasiti ac arian), faint o amser, ac aeddfedrwydd cydweithredu y maent yn fwyaf addas ar ei gyfer (cynnar, canolig neu aeddfed). Mae'r rhain yn arwyddion bras yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hymchwil a gellid eu hategu trwy ddefnyddio adnoddau eraill (e.e., matricsau aeddfedrwydd cydweithredu presennol i helpu i benderfynu ar ba gam y mae eich cydweithrediad). Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o gamau gweithredu posibl, na'r unig ffordd o'u categoreiddio a'u rhoi mewn cyd-destun, ond ei nod yw cynnig man cychwyn ar gyfer meddwl nid yn unig am beth yw cydweithredu da, ond sut i gyrraedd yno'n ymarferol.

# **Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin** Gweithgareddau sy'n cefnogi cydweithredu amlsector trwy ddatblygu nodau/dealltwriaeth gyffredin

| Camau gweithredu | Enghreifftiau | Allwedd i lwyddiant | Pwy sy'n ymwneud â hynny? | Adnoddau angenrheidiol | Yr amser sydd ei angen | Aeddfedrwydd y cydweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Casglu gwybodaeth**<br>Deall asedau, materion a dyheadau o fewn system neu ardal leol yn well | Ymchwil cymunedol, ymarferion gwrando, digwyddiadau ymgysylltu | Nid 'gwneud i' gymunedau.<br>Gwrando a chael gwared ar rwystrau rhag cyfranogi. | Traws-sector (ychydig o hwyluswyr)<br>Grwpiau cymunedol a dinasyddion (cynifer â phosibl) | | | |
| **Meddwl a mapio systemau**<br>Deall mater yn llawnach a nodi nodau hirdymor, cyffredin sy'n ymateb i achosion sylfaenol. | Mapio systemau, materion, ffactorau cyfrannol a'r actorion sy'n gysylltiedig (yn hytrach nag 'asedau') | Proses gydweithredol gydag ystod eang o randdeiliaid.<br>Mapio gyda phwrpas. | Traws-sector (10-30 o randdeiliaid allweddol) | | | |
| **Cynllunio hirdymor a macro-nodau**<br>Rhoi nodau cyffredin ar bapur (e.e., y nodau a nodwyd trwy feddwl systemau) a chamau tuag at eu cyflawni. | Theori newid, coed amcanion, gweledigaeth gyffredin, cynllunio gorwelion a senarios | Cynlluniau hyblyg nid sefydlog, y dychwelir atynt yn aml ('dogfennau byw').<br>Amser i'w datblygu ac ailedrych arnynt yn rheolaidd. | Traws-sector (5-10 rhanddeiliaid allweddol) | | | |
| **Hyfforddiant/dysgu ar y cyd**<br>Rhannu arbenigedd / dealltwriaeth ar draws sectorau | Digwyddiadau, cynadleddau, cymunedau ymarfer, gweminarau, 'dysgu dros ginio', hyfforddiant, adnoddau | Dulliau cydfuddiannol, parchus.<br>Dysgu fel partneriaid cyfartal.<br>Mannau ffisegol cyffredin. | Traws-sector (2-200 o gyfranogwyr) | | | Unrhyw un |
| **Cyfuno a rhannu gwybodaeth**<br>Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol, gyfredol ar gael am wasanaethau ac asedau | Platfformau ar-lein, rhestrau/ cyfeiriaduron, cronfeydd data, mapio asedau. | Adnoddau byw sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.<br>Hawdd cael atynt.<br>Wedi'u cydgynhyrchu i osgoi dyblygu/ gorgyffwrdd | Llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector (Ar draws sefydliadau) | | | Unrhyw un |
| **Diffinio deilliannau a sut i'w mesur nhw**<br>Cytuno ar sut y gallai nodau cyffredin drosi'n ddeilliannau neu'n effeithiau a sut i fesur y rhain. | Diffinio deilliannau cydweithredu mesuradwy (e.e., cydlynu gwasanaethau'n well) a deilliannau llesiant (e.e., mwy o fynediad i fannau gwyrdd) | Mesur deilliannau ansawdd yn ogystal â maint.<br>Creu neu ddefnyddio offer presennol i gynorthwyo â mesur. | Traws-sector (Rhanddeiliaid allweddol mewn cydweithrediad) | | | Unrhyw un |
| **Goruchwyliaeth ar y cyd i gydlynu gwasanaethau**<br>Mecanweithiau amlsector i gydlynu darpariaeth gwasanaeth, sy'n datblygu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau cymunedol | Trosolwg strategol neu fyrddau cynllunio.<br>Cyfarfodydd/platfformau amlasiantaethol i reoli ceisiadau trigolion am gymorth.<br>Rolau cyswllt a llwybrau atgyfeirio (gweler isod). | Hwyluso trafodaeth traws-sector.<br>Datblygu iaith gyffredin.<br>Canolbwyntio ar nodi meysydd blaenoriaeth. | Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus (timau neu rolau unigol) | | | neu |

**ALLWEDD** dangos cuddio

## Trefniadau llywodraethu

Rolau, cyfrifoldebau, prosesau a strwythurau a ddatblygwyd i gefnogi cydweithredu amlsector

| Camau gweithredu | Enghreifftiau | Allwedd i lwyddiant | Pwy? | Adnoddau angenrheidiol | Yr amser sydd ei angen | Aeddfedrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rolau cyswllt/cydlynu a llwybrau atgyfeirio** Helpu i lywio llwybrau atgyfeirio cymhleth a chyfathrebu ar draws sectorau | Rolau ymgysylltu â'r gymuned mewn cynghorau / sefydliadau trydydd sector. Rhagnodi cymdeithasol neu rolau llywiwr cymunedol | Hyblygrwydd i fod yn benodol i achos/ canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyfathrebu rheolaidd, uniongyrchol ar draws sectorau. Datblygu perthnasoedd ar draws gwasanaethau dros amser. | Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus (timau neu rolau unigol) Grwpiau trydydd sector a chymunedol (weithiau) | | | neu |
| **Cyfrifoldebau a ffiniau** Pennu cwmpas a chyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau gwahanol bartneriaid o fewn cydweithrediad | Protocol atgyfeirio rhwng gwasanaethau cymunedol/gwirfoddol a gwasanaethau sector cyhoeddus. Polisïau mewnol ar gyfer amlinellu rolau/ atebolrwydd o fewn cydweithrediad | Cytuno ar y cyd sut mae gwahanol gyfrifoldebau yn perthyn a beth i'w ddisgwyl gan ei gilydd. Cysylltiadau uniongyrchol a disgwyliadau clir o ran amseroedd ymateb. | Traws-sector | | | |
| **Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd** Sicrhau bod y rhai y mae penderfyniadau yn dylanwadu arnynt yn rhan o'r broses o'u gwneud | Cynulliadau dinasyddion, grwpiau rhanddeiliaid, byrddau arweinyddiaeth, llywodraethu dan arweiniad y gymuned a phartneriaethau neu rwydweithiau gweithredu. | Strwythurau sy'n esblygu, nid sefydlog. Gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Cynrychiolaeth amrywiol/ cynhwysol heb symbolaeth. | Awdurdodau lleol (cynullwyr fel arfer) Traws-sector (cynrychiolwyr) | | | neu |
| **Polisïau a gweithdrefnau** Ffurfioli neu ddeddfu prosesau cydweithredol | Prosesau/gofynion wedi'u ffurfioli ar gyfer cydweithredu ar lefelau sefydliadol neu ehangach. | Neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer cydweithredu. Darparu/cydgynhyrchu fframweithiau/prosesau, nid dim ond gofynion. | Traws-sectorau (o fewn neu rhwng sefydliadau) | | | |
| **Cyrff neu isadeileddau rhanbarthol/ cenedlaethol** Cydlynu, cynnull a llywio cydweithrediadau lleol. | Cyrff cyhoeddus, cynghorau gwirfoddol, sefydliadau ymbarél, cyrff aelodaeth. | Darparu gwybodaeth, cysylltiadau, isadeileddau perthnasol, sector-benodol. | Gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector | | | Unrhyw un |
| **Is-grwpiau cydweithredu â ffocws** Galluogi aelodau i ganolbwyntio ar eu meysydd arbenigedd a diddordeb, a'u datblygu | Timau neu grwpiau o fewn neu ar draws cydweithrediadau sy'n canolbwyntio ar themâu penodol (e.e., cyflwyno, ymchwil) | Sicrhau cyfathrebu rhwng is-grwpiau. Osgoi creu haenau llywodraethu ychwanegol. | Traws-sector (rolau sy'n canolbwyntio ar arfer/cyflawni) | | | |
| **Cefnogi capasiti a chysondeb y gweithlu** Caniatáu amser i ddatblygu gwaith a pherthnasoedd cydweithredol | Gofynion cyflog byw ar gyfer arianwyr grant/ comisiynwyr a derbynyddion grant | Ceisio cyllid tymor hwy sy'n cefnogi costau craidd (h.y. staffio) | Traws-sector (arweinwyr, arianwyr/ comisiynwyr) | | | neu |

**ALLWEDD** dangos cuddio

# Mecanweithiau ariannol

## Ymagweddau ar gyfer ariannu gwaith/mentrau mewn ffyrdd sy'n cefnogi cydweithredu amlsector

| Camau gweithredu | Enghreifftiau | Allwedd i lwyddiant | Pwy? | Adnoddau angenrheidiol | Yr amser sydd ei angen | Aeddfedrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid grant**<br>Cynyddu mynediad cymunedau i gyllid a rheolaeth drosto trwy strwythurau a gofynion grant penodol. | Grantiau hyblyg, treigl a grëwyd yn ystod y pandemig.<br>Grantiau cymesur (gyda gofynion gweinyddol sy'n gymesur â maint y grant) | Sicrhau nad yw hyblygrwydd a chymesuredd yn peryglu mynediad at grantiau tymor hwy, mwy o faint.<br>Cyfranogol (cynnwys derbynyddion grant wrth benderfynu ar natur y cyllid) | Sector cyhoeddus a thrydydd sector, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol (arianwyr) | | | neu |
| **Comisiynu a chontractio**<br>Canolbwyntio ar nodau ataliol, lefel system, deilliannau nid allbynnau, a phennu'r rhain ar y cyd | Comisiynu cydweithredol / ar y cyd / strategol / seiliedig ar le / seiliedig ar ddeilliannau | Canolbwyntio ar ddeilliannau nid allbynnau, a nodau lefel macro/ system.<br>Penderfynu ar y rhain ar y cyd. | Gwasanaethau cyhoeddus, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol (rolau strategol/comisiynu) | | | |
| **Adeiladu cyfoeth cymunedol**<br>Datblygu cadwyni cyflenwi sy'n cadw cyfoeth yn lleol | (at ddiben cymdeithasol)<br>Cronfeydd buddsoddi / cyfoeth cymunedol. | Addasu gwariant neu fuddsoddiadau presennol i gefnogi sefydliadau lleol ac asedau cymdeithasol neu amgylcheddol. | Llywodraeth leol | | | |
| **Isadeiledd ac ystadau**<br>Cynyddu perchnogaeth a rheolaeth gymunedol ar adeiladau neu dir | Trosglwyddiadau asedau cymunedol, ymddiriedolaethau tir, ad-drefnu ystadau | Cefnogaeth barhaus, nid trosglwyddo cyfrifoldeb.<br>Peidio â throsglwyddo asedau peryglus neu feichus.<br>Cynnwys pobl sydd â phrofiad blaenorol. | Llywodraeth leol a grwpiau cymunedol | | | neu |
| **Codi arian**<br>I roi cychwyn ar rywbeth neu ariannu gwaith anffurfiol | Cyllido torfol, Rhoi'n Lleol, rhoddion preifat. | Adeiladu ar gysylltiadau cymunedol a phethau y mae pobl yn credu ynddynt/yn poeni amdanynt. | Llywodraeth leol, sefydliadau cymunedol a dinasyddion | | | |
| **Cynnull adnoddau**<br>Er mwyn osgoi darnio neu ddyblygu ymdrechion a gweithio'n fwy effeithiol tuag at nodau cyffredin | Cyfuno cyllidebau neu gapasiti.<br>Cymorth mewn nwyddau (anariannol).<br>Cyfnewid sgiliau/gwybodaeth. | Ceisio sgiliau, adnoddau a phrofiad sydd eisoes yn 'y system' (h.y. adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli a'i ddefnyddio, nid 'ailddyfeisio'r olwyn'). | Traws-sector (arweinyddiaeth) | | | |
| **Adrodd effaith**<br>Deall 'beth sy'n gweithio' a sicrhau cyllid mwy cynaliadwy | Astudiaethau achos a straeon.<br>Offer/dulliau adrodd safonedig.<br>Gweithio gydag ymchwilwyr. | Cipio a chyfleu 'effeithiau anweledig'<br>Dysgu ac adrodd/rhannu parhaus, ailadroddol.<br>Cyd-ddiffinio mesurau 'llwyddiant' ymlaen llaw. | Traws-sector (rolau sy'n canolbwyntio ar arfer/cyflawni) | | | Unrhyw un |

**ALLWEDD** dangos cuddio




# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd